



TAITH PYLLAU
GLO CYMRU
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA
A WELSH COAL
MINING EXPERIENCE
RHONDDA HERITAGE PARK

Y RHUFEINIAID GWRTHRYCHAU RHUFEINIG

ROMAN ARTEFACTS



TARIAN RUFEINIG

Roedd Scutum (tarian) yn cael ei wneud o bren a lledr. Roedd darn metel yn y canol i amddiffyn y llaw rhag ergydion gan filwyr eraill. Ar y blaen mae symbol yr Ymerodraeth Rufeinig, adenydd eryr. Roedd y symbol i fod yn drawiadol ac yn ddychrynlyd. Cafodd y darian ei defnyddio hefyd mewn trefniant gan y milwyr i'w helpu nhw i symud ymlaen ar faes y gad. Byddai dynion yn grwpio ynghyd â'r rhai ar y tu mewn yn dal eu tarianau dros eu pennau a byddai'r milwyr ar y tu allan yn dal eu tarianau i'r ochrau. Dyma'r 'Testudo' a oedd yn golygu crwbau yn Lladin (iaith y Rhufeiniaid).

ROMAN SHIELD

Scutum's (shields) were made from wood and leather, with a metal part in the middle which protected the hand from blows by other soldiers. On the front is the symbol of the Roman Empire, the wings of an eagle. The symbol was meant to be striking and intimidating when others saw it. The shield was also used in formation by the soldiers to help them advance on the battle field. Men would group together with those on the inside holding their shield over their heads and on the outside to the sides. This formed the 'Testudo' which meant tortoise in Latin (the language the Romans spoke).



TOGAS

Roedd milwyr hefyd yn gwisgo togas coch o dan eu harfwisgoedd. Dim ond pobl gyfoethog a milwyr oedd yn gallu fforddio dillad wedi'u lliwio gan fod llif yn ddrud iawn yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid. Pan nad oedd milwyr yn gwisgo arfwisg ac nid oedd arweinwyr yr Ymerodraeth Rufeinig yn mynychu cyfarfodydd, bydden nhw'n gwisgo tiwnigau wedi'u lliwio.

TOGAS

Soldiers also wore red togas under their armour as undergarments. Only rich people and soldiers could afford dyed clothes as dye was very expensive during the Roman period.

When soldiers were not in armour and leaders of the Roman Empire were not attending meetings they would wear dyed tunics.



SANDALAU LLEDR A THIWNIG

Roedd gan y cyhoedd yn gyffredinol (gan gynnwys caethweision) ddillad sylfaenol iawn; tiwnig heb ei lliwio. Cafodd hyn ei wneud o ddarn o frethyn wedi'i blygu yn ei hanner gyda thyllau ar gyfer y pen a'r breichiau. Pe byddai'r tywydd yn oer, bydden nhw'n gwisgo tiwnig gyda llewys, fel yr un yn y blwch.

Roedd Rhufeiniaid hefyd yn gwisgo sandalau llethr gyda hoelion yn y gwadnau i roi gafael. Roedd plant yn gwisgo tiwnigau fel yr oedolion ac nid oedd dillad bechgyn a merched yn wahanol.

LEATHER SANDALS AND TUNIC

The general public (including slaves) had very basic clothing; an un-dyed tunic. This was made from a piece of cloth folded in half with holes in for their head and arms. If the weather was cold the tunic would have had sleeves, like the one in the box.

Romans also wore leather sandals with nails in the sole for grip. Children wore tunics just like the adults and the clothes were no different for girls or boys.



TAITH PYLLAU
GLO CYMRU
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA
A WELSH COAL
MINING EXPERIENCE
RHONDDA HERITAGE PARK

GWRTHRYCHAU RHUFEINIG ROMAN ARTEFACTS



TABLED YSGRIFENNU PREN A STYLUS

Roedd papur yn ddrud, a dim ond y bobl gyfoethog oedd yn gallu ei fforddio. Roedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn defnyddio tabled bren wedi'i gorchuddio â chwyr ar gyfer ysgrifennu. Mae gan y stylus ddau ben, pen pigfain ar gyfer ysgrifennu ar y dabled a phen fflat ar gyfer rwbio allan. Roedd hyn yn golygu bod modd aildefnyddio'r dabled. Roedd yn hanfodol ar gyfer addysgu bechgyn, gwneud rhestrau ac ysgrifennu cyfarwyddiadau yn yr Ymerodraeth Rufeinig.

WOODEN TABLET AND STYLUS

Paper was a luxury item, reserved only for the wealthy, the majority of the population would use, instead, a wax coated wooden tablet to write things down. The stylus has two ends, a pointy end for inscribing into the tablet and a flat end for rubbing out. This meant that the tablet was reusable.

This was essential for its use in the education of boys, making lists and instructions in the Roman Empire.



TEGANAU RHUFEINIG

Roedd y rhan fwyaf o deganau oedd ar gael yn ystod cyfnod y Rhufeiniad wedi'u gwneud o glai neu bren. Roedd ceffyl tegan yn gyffredin iawn. Roedd ceffylau'n cael eu defnyddio ar gyfer trafnidiaeth, yn debyg i blentyn heddiw'n chwarae gyda char tegan. Roedd gan rai ceffylau tegan olwynion a/neu ddarn o gortyn fel bod modd tynnu'r ceffyl.

Roedd gêm boblogaidd arall yn defnyddio esgyrn migwrn defaid. Byddai un asgwrn migwrn yn cael ei daflu i'r awyr a'r nod oedd codi cymaint o esgyrn eraill oddi ar y ddaear cyn dal yr un cyntaf.

ROMAN TOYS

Most toys available during the Roman period were made out of clay or wood. A common toy was a horse which were used for transport, much like a child today playing with a toy car. Some toy horse's had wheels and/or a piece of string so that the horse could be pulled along.

Another popular game used sheep knuckle bones. One knuckle bone would be thrown into the air and the aim would be to pick up as many other bones off the ground before catching the first one.



LAMP OLEW

Byddai lamp olew fel yr un yn y blwch yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu golau mewn tŷ Rhufeinig. Byddai modd ei chario o gwmpas yng nghledr eich llaw. Byddai'r olew olewydd yn cael ei dywallt i'r lamp a byddai wic, wedi'i wneud o liain yn cael ei roi yn ei phig. Wrth i'r wic losgi, byddai rhaid ei dynnu ymlaen i'w atal rhag disgyn i'r olew.

OIL LAMP

An Oil lamp like the one in the box would be used to produce light in a Roman house. It could also be carried around in the palm of your hand. The olive oil would be poured into the lamp and a wick, made of linen would be placed in its spout. As it burns the wick would need to be pulled forward to stop it from falling into the oil.



TAITH PYLLAU
GLO CYMRU
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA
A WELSH COAL
MINING EXPERIENCE
RHONDDA HERITAGE PARK

GWRTHRYCHAU RHUFEINIG ROMAN ARTEFACTS



PECYN OFFER GLANWEITHDRA A STRIGIL

Roedd cadw'n lân yn bwysig iawn i'r Rhufeiniaid. Roedd yn boblogaidd i gario pecyn offer glanweithdra fel yr esiampl yma. Roedd ymdrochi'n weithgaredd cymdeithasol. Doedd gan y Rhufeiniaid ddim 'ystafell ymolchi' gartref, felly cafodd baddonau cyhoeddus eu hadeiladu yng nghanol trefi. Roedd y Rhufeiniaid yn glanhau eu hunain gydag olew yn hytrach na sebon. Roedden nhw'n tywallt yr olew ar eu cyrff ac yn ei grafu i ffrwd gyda strigil. Doedd dim ots os oeddet ti'n berson cyfoethog neu'n gaethwas, roedd gan bawb yr hawl i ddefnyddio'r baddonau.



HYGIENE KIT AND STRIGIL

Romans took their hygiene very seriously. It was popular to carry around a hygiene kit like the example shown. Bathing was a social activity. Romans would have not had a 'bathroom' in the house as we know it today and so communal baths were built in the middle of towns. When cleaning themselves they would use oil instead of soap. They would put the oil on their body then scrape it off with a strigil. It did not matter whether you were high up in society or a slave everyone got to use these baths.



AMPHORA

Roedd llawer o wrthrychau ar gyfer y cartref yn cael eu gwneud o grochenwaith yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid oherwydd doedd dim plastig ac roedd gwydr yn ddud iawn. Câi crochenwaith ei wneud o ddŵr a chlai a oedd wedyn yn cael ei danio mewn odyn (ffwrn boeth iawn) a oedd yn ei wneud yn galed.

Roedd Amphora yn ddarn pwysig o grochenwaith i'r Rhufeiniaid gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i gario bwyd a gwin o gwmpas yr Ymerodraeth. Roedd yr Amphora yn cael ei ystyried yn grochenwaith bras gan yr oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer coginio a bwyta. Roedd o ansawdd isel ac wedi'i wneud â waliau trwchus i wrthsefyll cael ei ddefnyddio nifer o weithiau.

AMPHORA

Many household objects during the Roman period were made of pottery as there was no plastic and glass was very expensive. Pottery was made from water and clay that was then fired in a kiln (a very hot oven) which made it hard.

An Amphora was an important piece of pottery for the Romans as it was used to carry food and wine around The Empire. The Amphora was classed as coarse ware as it was a piece of pottery used in cookery and eating. It was of low quality and made with thick walls to withstand numerous uses.



TAITH PYLLAU
GLO CYMRU
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA
A WELSH COAL
MINING EXPERIENCE
RHONDDA HERITAGE PARK

GWRTHRYCHAU RHUFEINIG ROMAN ARTEFACTS



LLWY GYDA CHARN SIÂP HWWYADEN

Roedd llawer o Rufeiniaid yn defnyddio llwyau i fwyta eu bwyd. Roedd y mwyafrif wedi'u gwneud o bren ond os oeddech chi'n gyfoethog byddech chi'n prynu llwy fetel. Byddai llwyau wedi'u haddurno â phennau anifeiliaid fel yr un yn y blwch sy'n hwyaden.



Mae gan y llwy hefyd symbol Cristnogol Rhufeinig yng nghanol y llwy. Mae hyn yn dweud wrthym ni roedd y perchennog gwreiddiol yn Gristion. Roedd hyn yn grefydd newydd a ddaeth i Brydain yn agos at ddiwedd cyfnod y Rhufeiniaid.

DUCK HANDLED SPOON

Many Romans used spoons to eat their food. The majority were made of wood, unless you were rich then you had metal cutlery. Spoons would have been decorated with animal heads like the one in the box that is a duck.

The spoon also has the Roman symbol of Christianity, which is in the centre of the spoon. This tells us that the original owner was a Christian, a new faith in Britain towards the end of the Roman period.